# Paratoi offerynnau llawfeddygol ac eitemau atodol ar gyfer y tîm llawfeddygol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi offerynnau llawfeddygol ac eitemau atodol ar gyfer y tîm llawfeddygol.  Mae hyn yn cynnwys paratoi'r troli, offerynnau llawfeddygol ac eitemau atodol di-haint.

Byddwch yn gweithio mewn rôl 'mewn sgrybs' pan fyddwch chi'n ymgymryd â'r gweithgareddau hyn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael at a dehongli'n gywir yr holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
2. gweithio'n ddiogel bob amser ac yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol
3. delio'n brydlon ac yn effeithiol ag unrhyw broblemau o fewn eich rheolaeth a rhoi gwybod am broblemau nad allant gael eu datrys
4. nodi a lleihau peryglon a risgiau yn y gweithle
5. paratoi a chynnal offerynnau ac eitemau atodol di-haint mewn ardal baratoi ddynodedig i sicrhau asepsis
6. dewis a pharatoi'r offerynnau llawfeddygol a'r eitemau atodol cywir yn ôl yr arbenigedd clinigol, gofynion disgwyliedig y weithdrefn lawfeddygol, ac anghenion yr unigolyn
7. gwirio eitemau wedi'u cyfyngu gan ddyddiad a chadarnhau eu bod o fewn eu dyddiad dirwyn i ben
8. trafod, symud a gwirio offerynnau llawfeddygol ac eitemau atodol yn ddiogel, yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr, gan gadarnhau eu bod yn ddiogel ac yn gweithredu'n gywir cyn eu paratoi nhw'n barod i'w defnyddio
9. gosod cyfarpar llawfeddygol yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr, ac i fodloni anghenion y weithdrefn lawfeddygol a chynlluniau gofal unigolion
10. cyfrif a chofnodi offerynnau, nodwyddau, swabiau ac eitemau atodol ar y cyd ag ymarferwr cofrestredig fel yr ail wiriwr awdurdodedig cyn dechrau, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
11. paratoi'r troli llawfeddygol, gan osod offerynnau llawfeddygol ac eitemau atodol mewn modd sy'n ei gwneud hi'n haws cael atynt a'u defnyddio, yn unol â dilyniant disgwyliedig y weithdrefn lawfeddygol
12. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y ddeddfwriaeth, y canllawiau, y polisïau, y gweithdrefnau a'r protocolau presennol sy'n berthnasol i'ch ymarfer yn y gwaith, ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
2. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd eich hun fel y bo'n berthnasol i'ch rôl
3. sut i gael at a dehongli'r holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
4. gweithdrefnau penodol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau sydd y tu hwnt i'ch cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd
5. y ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw weithred neu anwaith a allai fod yn anniogel/yn niweidiol i chi neu i eraill
6. y peryglon a'r risgiau a allai godi wrth i chi gyflawni eich rôl a sut y gallwch eu lleihau
7. y defnydd cywir o unrhyw gyfarpar a chyfarpar diogelu personol (PPE) i amddiffyn eich iechyd a'ch diogelwch chi a phobl eraill
8. strwythurau, rolau a chyfrifoldebau rheoli'r sefydliad
9. rôl cyrff rheoleiddiol yn gysylltiedig â chynnyrch meddygol a gofal iechyd, a rheoliadau'n gysylltiedig â dyfeisiau meddygol
10. defnyddio camau rhagofalus safonol wrth baratoi dyfeisiau meddygol ac offerynnau llawfeddygol a chanlyniadau posibl ymarfer gwael
11. y gwahaniaeth rhwng rolau mewn sgrybs a rolau cylchredol
12. egwyddorion asepsis yn gysylltiedig â pharatoi offerynnau llawfeddygol ac eitemau atodol
13. y mathau o offerynnau llawfeddygol ac eitemau atodol a ddefnyddir yn gyffredin yn yr arbenigeddau clinigol sy'n berthnasol i'ch ymarfer, eu diben a'u swyddogaeth
14. y gofynion ar gyfer offerynnau llawfeddygol ac eitemau atodol ar gyfer yr arbenigeddau clinigol sy'n berthnasol i'ch ymarfer, a'u haddasrwydd
15. y ffactorau i'w hystyried wrth ddewis offerynnau llawfeddygol ac eitemau atodol
16. pwysigrwydd cadw at gyfarwyddiadau gweithgynhyrchwyr ynghylch paratoi offerynnau llawfeddygol ac eitemau atodol
17. pwysigrwydd gwirio a chadarnhau bod cyflwr offerynnau llawfeddygol ac eitemau atodol yn addas cyn eu defnyddio
18. y mathau o weithdrefn sy'n cael eu cyflawni yn yr arbenigeddau clinigol sy'n berthnasol i'ch ymarfer
19. pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau ar gyfer dilyn ac olrhain deunyddiau ac offerynnau llawfeddygol yn ystod y paratoi

20. pwysigrwydd gwirio a chadarnhau bod cyflwr offerynnau llawfeddygol ac eitemau atodol yn addas cyn eu defnyddio
21. y meini prawf a'r dulliau ar gyfer gwirio bod yr offerynnau llawfeddygol a'r eitemau atodol i'w defnyddio yn ddi-haint
22. ffyrdd y gall pobl sy'n gweithio'r tu allan i'r maes di-haint ei beryglu, a sut gellir osgoi hyn
23. y llinellau atebolrwydd penodol o fewn y tîm llawfeddygol
24. sut i gwblhau'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad, a'i storio'n ddiogel

SFHPCS14

Paratoi offerynnau llawfeddygol ac eitemau atodol ar gyfer y tîm llawfeddygol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Health |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Health |
| **RCU gwreiddiol** | SFHPCS14 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr iechyd proffesiynol, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal, Lechyd, Nyrsio a Phynciau a Galwedigaethau Perthynol, Gwasanaethau Gofal Iechyd a Gwasanaethau Personol Cysylltiedig |
| **Cyfres/Set** | Gofal amdriniaethol |
| **Geiriau Allweddol** | Gofal, amdriniaethol, paratoi, llawfeddygol, offerynnau, atodol, tîm |